# Llwybr Natur

Llechi Cymru Wales Slate

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

## Gwybodaeth hanfodol

Rydym yn awyddus i chi fwynhau'ch ymweliad â Pharc Gwledig Padarn ond cofiwch y gall rhai rhannau o'r Parc fod yn beryglus ac y dylid cadw llygad ar blant trwy'r amser.

- Cadwch at y llwybrau sydd ag arwyddion cyfeirio yn unig
- Peidiwch â mynd i mewn i adfeilion adeiladau
- Cadwch draw o hen adeiladweithiau'r chwarel
- Mae rhai o'r llwybrau'n anwastad a rhai ar ymyl dibyn serth
- Mae hen weithfeydd y chwarel, llwybrau serth trwy'r coed a dyfroedd dwfn yn y Parc

1. Dilynwch yr arwyddion cyfeirio gwyrdd o Man Gwybodaeth Parc Gwledig Padarn yn y *Gilfach Ddu* a cherdded i gyfeiriad adeilad gorsaf Rheilffordd Llyn Padarn. Cerddwch ran o'r ffordd i fyny inclên A1 Chwarel Dinorwig. O'r ffordd at Ysbyty'r Chwarel fe welwch Chwarel Vivian. Bu cloddio yma o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg tan 1964. Gelwir twll y chwarel yn 'sinc'. Pan oedd y chwarel yn gweithio, roedd pympiau'n tynnu dŵr o'r sinc. Yn raddol, mae byd natur yn adfeddiannu'r dirwedd ddiwydiannol.
2. Mae'r coetir Derw yn oeraidd ac yn llaith ac mae'n gynefin delfrydol i redyn. Ymhlith y mathau o redyn sy'n tyfu yma mae Rhedynen Fair, Duegredynen Gwallt y Forwyn, y Rhedynen Ungoes a Llawredynen y Derw neu'r Llawredynen Gyffredin sy'n tyfu ar goed. Rhedynen Bêr y Mynydd (Mountain Buckler, Oreopteris limbosperma) yw'r rhedynen fwyaf cyffredin. Mae iddi goesau brown, cennog a dail hir tebyg i blu.
3. Wrth ymyl y llwybr mae twmpath o gerrig a elwir yn 'Rhewglai'. Cafodd ei adael gan rewlif yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf, rhwng 115,000 ac 11,700 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r cerrig yn finiog ac nid yw'n ymddangos eu bod wedi'u llyfnhau wrth i'r rhew symud dros amser.
4. Wrth i'r rhew doddi 12,000 o flynyddoedd yn ôl, tyfodd gwahanol fathau o blanhigion yma. Roedd y planhigion yn debyg i'r rhai oedd yn tyfu mewn mannau oer ymhellach i'r gogledd, fel y Twndra yn yr Ynys Las. Wrth i'r hinsawdd gynhesu, dechreuodd nifer fawr o goed llydanddail fel Derw Mes Di-goes dyfu yma. Mae *Coed Dinorwig* yn enghraifft o un o'r coetiroedd hynafol hyn.
5. Ym mis Mai, mae'r coed Derw Mes Di-goes yn llawn lindys gwyfynod Gwinau Brith neu'r Dad-ddeiliwr sy'n bwyta'r dail. Gwelir tystiolaeth eu bod yno'n bwyta tan fis Gorffennaf. Ar ôl i'r lindys droi'n wyfynod, mae'r coed yn tyfu ail gnwd o ddail i wneud fyny am y rhai a gollwyd.
6. Cyfuniad cymhleth o ffyngau ac algâu yw cennau. Cânt eu difrodi'n hawdd os oes llygredd yr yr aer. Mae llawer o gennau i'w gweld ar goed a chreigiau ym Mharc Gwledig Padarn sy'n awgrymu bod yr aer yn lân yma.
7. Mae llawer o wahanol adar yn byw yn y coed Derw. Gallech weld y Dringwr Bach, y Dryw, y Titw Cynffon-hir a'r Gwybedog Brith. Mae'r Gnocell Werdd a'r Gnocell Fraith Fwyaf i'w clywed ond prin y gwelir nhw. Mae'r Gwybedog Brith yn gweithredu fel rheolwr pla trwy fwyta'r Dad-ddeiliwr.
8. I'r chwith o'r llwybr hwn mae coed Pinwydd yr Alban yn tyfu. Er eu bod yn tyfu'n wyllt yng Nghymru, perchnogion y chwarel blannodd y rhain – i gofio am ddigwyddiad arbennig, efallai. Roedd y bonion hir yn cael eu defnyddio fel trawstiau cynhaliol yn adeiladau'r chwarel.
9. Mae'r pridd yn ddyfnach ar loriau dyffrynnoedd y Parc ac maent yn fwy cysgodol na'r trumiau. O'r fan hon, mae'n hawdd gweld pam y mae'r coed Derw'n tyfu'n uwch ac yn gryfach yn y dyffrynnoedd.
10. Dyma banorama o *Lyn Padarn*. Dim ond pum llyn dyfnach sydd yng Nghymru. Gwelir copaon yr *Wyddfa* a *Chrib Goch* yn y pellter tua'r de-ddwyrain. Mae modd gweld Bae Caernarfon ac Ynys Môn hefyd tua'r de-orllewin.
11. O Amgueddfa Ysbyty'r Chwarel ewch i lawr y grisiau a chroesi pont Bwa Vivian i gyrraedd yr olygfan olaf. Ffurfiwyd y fan hon trwy dynnu rhan uchaf tomen enfawr o wastraff llechi. Mae gwaelod y domen hon 30 metr / 100 troedfedd o dan wyneb y llyn.

